

# CYLCHLYTHYR LLWYBRAU CELTAIDD

**Croeso i gylchlythyr Llwybrau Celtaidd mis Ionawr 2022. Blwyddyn Newydd Dda!**

Isod, gwelwch ddiweddariad ar ein cynnydd hyd yn hyn, newyddion am adnoddau newydd i'ch helpu i wneud y gorau o'r brand Llwybrau Celtaidd, a chynlluniau'r prosiect ar gyfer y dyfodol, sy'n annog teithwyr i ddarganfod ysbryd Celtaidd Cymru ac Iwerddon.

## EI GWNEUD YN 'HAWS ARCHEBU' TRWY LLWYBRAU CELTAIDD

Ffocws allweddol ar gyfer Cam 2 o ymgyrch y Llwybrau Celtaidd, a ddechreuodd yng ngwanwyn 2021, fydd ymgysylltu â busnesau twristiaeth i gydgyllunio a datblygu cynhyrchion a phrofiadau newydd sy'n cyd-fynd â'r themâu sy'n rhan annatod o frand y Llwybrau Celtaidd.

Rydym am ei gwneud yn haws archebu trwy Llwybrau Celtaidd. Rydym hefyd am ddod â'r straeon ym mhob sir yn fyw trwy gasgliad o brofiadau wedi'i guradu. Bydd pob profiad yn cynnig cipolwg dilys ar dirwedd, treftadaeth a rhinweddau arbennig Gorllewin Cymru a Dwyrain Hynafol Iwerddon.

Mae enghreifftiau o brofiadau posibl yn cynnwys:

- Teithiau cerdded natur a threftadaeth
- Teithiau twrio am fwyd
- Teithiau beicio
- Llwybrau awyr dywyll

- Pecynnau gweithgareddau megis arforgampau, adeiladu tîm a champau dŵr

- Teithiau i wyllo bywyd gwyllt
- Teithiau pererindod
- Profiadau Celf a Chrefft
- Teithiau diwylliannol

Yr elfen allweddol yw bod y profiadau yn helpu ymwelwyr i ddeall y sir yn well, a bod tarddiadau'r lle (y dirwedd, y natur, y dreftadaeth a'r diwylliant) yn rhan allweddol o'r profiad.

Mae'r buddion posibl o gymryd rhan yn y fenter yn cynnwys:

- Rhaglen farchnata ddynodedig i hyrwyddo profiadau
- Adran ddynodedig o wefan Llwybrau Celtaidd
- Sylw yn y cyfryngau a chan blogwyr i'r profiadau y cymerwyd rhan ynddynt
- Lluniau o'r profiadau ar gael i'r rhai sy'n cymryd rhan (yn ogystal

â mynediad at amrywiaeth o ddelweddau o ansawdd uchel sydd eisoes yn bodoli)

- Datblygu rhwydweithiau o brofiadau tebyg mewn gwledydd eraill
- Teithiau dysgu i gael rhagor o wybodaeth am gynhyrchion tebyg yng Nghymru ac Iwerddon
- Cymorth i estyn eich rhaglen i wledydd eraill

Bwriad y cynllun yw hyrwyddo gwell ymdeimlad o le, a helpu ymwelwyr i fwynhau'r sir yn llawn. Mae gennym rai syniadau eisoes ynghylch y ffordd y gallwn helpu i roi hwb i'ch archebion, ond hoffem ddarganfod sut y gall y prosiect weithio i chi.

I ddysgu rhagor, cysylltwch â

**[RSJones@carmarthenshire.gov.uk](mailto:RSJones@carmarthenshire.gov.uk)**  
**[oonagh.messette@wexfordcoco.ie](mailto:oonagh.messette@wexfordcoco.ie)**

## DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y CYFRYNGAU

Yn rhan o'n hymgyrch cyswllt â'r cyfryngau i hyrwyddo'r Llwybrau Celtaidd, rydym yn gweithio gyda dwsinau o newyddiadurwyr cenedlaethol a dylanwadwyr y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Llwybrau Celtaidd i gynulleidfaoedd yr ydym yn gwybod eu bod wrth eu bodd yn darllen am gyrchfannau teithio ysbrydoledig. Yn dilyn cyfnod anodd trwy gydol camau cyntaf y pandemig, lle roedd yn rhaid i ni ganslo nifer o deithiau'r wasg gyda newyddiadurwyr allweddol, rydym yn falch o ddweud nid yn unig bod nifer o deithiau'r wasg wedi cael eu cynnal erbyn hyn ond bod sawl un arall ar y gweill.

Ym mis Medi 2021, yn dilyn taith a drefnwyd gennym ar gyfer papurau newydd y Wicklow/Wexford People, cafodd yr adolygiad nodwedd ei gyhoeddi mewn atodiad a oedd yn canolbwyntio ar wyliau gartref yn y **Wicklow People** a'r **Wexford People**, fel ei gilydd, yn ogystal ag yn eu teitlau cysylltiedig, gan gynnwys y **New Ross Standard**, y **Gorey Guardian**, yr **Enniscorthy Guardian**, y **Bray People**, y **Kerryman**, y **Corkman**, y **Sligo Champion**, y **Drogheda Independent**, y **Dundalk Argus**, a'r **Fingal Independent**. It was also featured in a prominent position on the **Irish Independent** ar-lein.

Roedd y sylw a gafwyd yn ystod y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys dalen ddwbl wych yn yr **Irish Sun** – 'Going Back to our Routes' – yn dilyn taith

a drefnwyd gennym ar gyfer golygydd teithio y papur newydd, Karl Doyle, ym mis Mehefin.

Ddechrau mi Medi, ymwelodd cylchgrawn **OK!** â siroedd y Llwybrau Celtaidd. Yn dilyn hyn cafodd erthygl ei chyhoeddi mewn dalen ddwbl fawr yn rhifyn o **OK!** a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd. Cafodd ei chyhoeddi hefyd yng nghylchgrawn dydd Sadwrn ei chwaer-deitl yn y cyfryngau, The **Daily Express**, ar ddydd Sadwrn 20 Tachwedd.

Ac yn ystod yr un cyfnod, ymwelodd awdur nodweddion o **Country Waking** ag Iwerddon, lle yr aeth ati i gerdded ar hyd tipyn o Wicklow Way gan ymweld ag amryw o leoliadau ar y ffordd. Bydd y deunydd hwn yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2022.

Ddechrau mis Hydref 2021, ymwelodd papur newydd **The i** ag Iwerddon, yn dilyn ei daith i Gymru yn hydref 2020. Teithiodd Heather Saul, sy'n olygydd cynorthwyol, trwy dair sir Wicklow, Waterford a

Wexford. Mae'r erthygl ar y gweill.

At hynny, ym mis Hydref, yn dilyn taith i Gymru a drefnwyd gennym ar gyfer newyddiadurwr o'r **Telegraph** ym mis Awst, lle yr arhosodd y newyddiadurwr yn The Grove yn Sir Benfro, cyhoeddwyd adolygiad yng nghylchgrawn penwythnos y papur newydd, **Stella**, yn ogystal ag ar-lein. ar-lein

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n cynllunio teithiau arfaethedig y wasg ar gyfer gwanwyn 2022.





## GWEITHIO GYDA DYLANWADWYR


**Yn rhan o'n gwaith i hyrwyddo'r Llwybrau Celtaidd i gynulleidfaoedd cenedlaethol a rhyngwladol, rydym wedi bod yn gweithio gyda dylanwadwyr ar-lein i ddatblygu cynnwys cymdeithasol ar draws Facebook, Twitter, Instagram ac YouTube.**

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, rydym wedi ysgogi cynnwys gyda dau luniwr cynnwys Ewropeaidd, sef y blogiwr o Ffrainc, **Biche Around the World**, a'r blogiwr o'r Iseldiroedd, **We Are Travellers**.

Postiodd Biche Around the World ddeunydd a oedd yn cynnwys tri blog, chwe phostiad Facebook, chwe phostiad Instagram a thri phostiad Twitter. A phostiodd We Are Travellers un blog, dau bostiad Facebook, dau bostiad Twitter ac un gyfres o Straeon Instagram.

Yn nes at gartref, roeddem hefyd wedi trefnu taith ar gyfer y dylanwadwr Gwyddelig, Tom's Tours, a fwynhaodd arhosiad pedair noson yn nhair

sir y Llwybrau Celtaidd yn Iwerddon gyda'i gi Archer. Yn ystod ei daith, ac wedi hynny, bu Tom yn postio toreh o gynnwys yn croniclo ei ymweliad, a oedd yn cynnwys Riliâu, Straeon, postiadau grid, a fideos o uchafbwyntiau ar Instagram, ynghyd â ffilm fer wych ar YouTube.



## YN CYFLWYNO ... COMICS LLWYBRAU CELTAIDD

**Yn ein cylchlythyr diwethaf, dywedasom wrthych fod cyfres o gomics Llwybrau Celtaidd yn cael ei datblygu i arddangos mythau a chwedlau o bob cwr o'r Llwybrau Celtaidd, a hynny mewn fformat llyfrau comics clasurol, wedi'u cynllunio i apelio i gynulleidfaoedd iau, a'u haddysgu.**

Cynlluniwyd chwe chomig sy'n cynnwys chwedlau unigol ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion, Wicklow, Wexford a Waterford, ac maent ar gael mewn fformatau digidol a phrint.

Mewn newyddion cyffrous, mae'r copïau print wrthi'n cael eu dosbarthu gan ein partneriaid ledled chwe sir ymgyrch y Llwybrau Celtaidd. A byddwch hefyd yn gallu eu lawrlwytho oddi ar ein llyfrgell asedau.



## LLYFRGELL ASEDAU LLWYBRAU CELTAIDD

Mae ein llyfrgell asedau ar-lein yn cynnwys miloedd o ffotograffau a fideos proffesiynol o leoliadau ledled chwe sir y Llwybrau Celtaidd – Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Wexford, Wicklow a Waterford.

Bwriad y llyfrgell asedau yw darparu adnoddau

marchnata gweledol o ansawdd uchel a fydd yn eich helpu i gychwyn ar eich taith Llwybrau Celtaidd gyda ni.

I archwilio ein dewis helaeth o ddelweddau a fideos, sgroliwch i waelod tudalen gartref ein gwefan, cliciwch ar y tab tudalen fasnach Cysylltiadau

Busnes, a chofrestrwch i gael mynediad, lle byddwch yn rhydd i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ar yr amod eich bod yn cadw at y Telerau Defnyddio ac yn cydnabod Llwybrau Celtaidd.

**I gael rhagor o wybodaeth:**  
<https://assets.celticroutes.info/>



## LLWYBRAU CELTAIDD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Dilynwch a rhannwch gynnwys Llwybrau Celtaidd ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun.

Rydym yn postio cynnwys sawl gwaith yr wythnos ar draws Facebook, Instagram a Twitter a bydd eich cefnogaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn helpu i gynyddu nifer o ddilynwyr ymhlith eich cynulleidfaoedd twristiaeth ac i yrru ymwelwyr i'n tiroedd Celtaidd.

Byddwn yn sicr o rannu eich cynnwys ac ymgysylltu â'r cynnwys hwnnw yn ein tro!

 @CelticRoutes

 @CelticRoutes

 @CelticRoutes

#CelticRoutes  
#MyCelticMoment  
#LlwybrauCeltaidd

